Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# ‘Beth sy'n Wahanol?’
# Yr Hanfodion

## Gweithdrefnau Diogelu Cymru
## Gwasanaethau i Blant

# Mae'r sesiwn hon

- **Yn gyflwyniad**
  i'r gweithdrefnau newydd i staff amlasiantaethol, gan gynnwys pam a sut y cawsant eu llunio
- **Yn nodi'r prif newidiadau**
  a fydd yn effeithio ar staff sy'n rhan o'r broses o hysbysu am faterion yn ymwneud â diogelu

# Nid yw'r sesiwn hon

- **Yn hyfforddiant manwl**
- Wedi'i bwriadu ar gyfer staff sy'n cynnal ymholiadau ac ymchwiliadau awdurdod lleol
- Wedi'i bwriadu ar gyfer staff sy'n ymgymryd â rôl Cydlynydd Arweiniol neu Ymarferydd Arweiniol (Awdurdod Lleol ac Iechyd)

# Dull hyfforddi tri cham Gwent:

## Rhoi ar waith

- Ebrill 6, 2020
- Mae deunyddiau hyfforddi cenedlaethol ar gael gan Fwrdd Diogelu Cymru drwy wefan Gofal Cymdeithasol Cymru

## **Cam 1** (Ebrill – Hydref 2020)

- Sesiynau briffio amlasiantaethol (Wedi'u cyflwyno gan Ddiogelu Gwent)

# Cam 2

- Cyrsiau diogelu diwrnod cyfan sy'n ymgorffori'r gweithdrefnau newydd ar gyfer unrhyw rai y bydd angen iddynt ddiweddaru eu hyfforddiant lefel 2 blaenorol.

# Cam 3

- Sesiynau briffio/hyfforddiant penodol ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol, Cydlynwyr Arweiniol, a'r sawl sy'n cymryd hysbysiadau yn yr Awdurdod Lleol a maes iechyd
- wedi'u cyflwyno yn fewnol o fewn yr Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yr Heddlu

# Gweithdrefnau Diogelu Cymru

- **Wedi'u llunio gan** Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, mewn cydweithrediad â'r 5 Bwrdd Diogelu Rhanbarthol arall ac wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru
- **Y cydweithrediad mawr cyntaf** rhwng y 6 Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ers iddynt gael eu cyflwyno gan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*
- Roedd **Bwrdd Prosiect Cenedlaethol** yn goruchwylio'r gwaith o lunio'r gweithdrefnau; roedd yn cynnwys aelodau o'r 6 Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.

# Yn cymryd lle yr holl weithdrefnau blaenorol


~~Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008~~

~~Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed rhag cael eu Cam-drin 2010 (diweddarwyd 2013)~~

# Nid yw Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael mewn print. Maent ond ar gael **yn ddigidol**…

**Ap Am Ddim**




**Gwefan**

[diogelu.cymru](diogelu.cymru)
[safeguarding.wales](safeguarding.wales)

# Gweithdrefnau Diogelu Cymru

## Gweithdrefnau ar gyfer diogelu PLANT

5 Adran + Awgrymiadau ar gyfer Ymarfer

Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan

## Gweithdrefnau ar gyfer diogelu OEDOLION MEWN PERYGL

5 Adran + Awgrymiadau ar gyfer Ymarfer

I'w datblygu

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Beth sy'n Wahanol?’ Yr Hanfodion Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gwasanaethau i Blant




**Dewis iaith** Cymraeg / Saesneg

**Chwilio** am air neu bwnc

**Cefndir / Cyflwyniad** i Weithdrefnau Diogelu Cymru

Gweithdrefnau ar gyfer diogelu **Plant a Phobl Ifanc**

Gweithdrefnau ar gyfer diogelu **Oedolion mewn Perygl**

**Gwefannau** yr holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol

Rhestr **termau**

Mae'n cynnwys **e-bost** i roi gwybod am unrhyw broblemau

English


## Gweithdrefnau Diogelu Cymru

- Cyflwyniad
- Plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gamdriniaeth
- Oedolion sy'n wynebu risg
- Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Geirfa
- Am

# Gweithdrefnau ar gyfer diogelu **Plant a Phobl Ifanc** mewn perygl o niwed

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

## Beth sy'n Wahanol?' Yr Hanfodion Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gwasanaethau i Blant







**Adrannau: 1-4**
Gweithdrefnau Diogelu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Gweithdrefnau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

English


Nôl i Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed

## Egwyddorion diogelu ac arfer effeithiol: plant

- Trosolwg o’r adran
- Egwyddorion diogelu
- System ddiogelu effeithiol
- Diffiniadau allweddol perthnasol i ddiogelu plant
- Y broses ddiogelu: trosolwg
- Help cynnar ac atal camdriniaeth, esgeulustod and niwed

# Adran 1

Yn rhoi manylion am **rolau, cyfrifoldebau** a **disgwyliadau**




... ac yn darparu **adnoddau a gwybodaeth** bellach...

...gyda **dolenni allanol**

...**termau** wedi'u huwcholeuo

... ac **Awgrymiadau ar gyfer Ymarfer**

Gweithdrefnau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

English

### Awgrymiadau Ymarfer: Arwyddion o Gamdriniaeth, Esgeulustod a Niwed Posib mewn Plentyn

Gall camdriniaeth ac esgeulustod fod yn ganlyniad i ddigwyddiad penodol neu gamdriniaeth ac esgeulustod cyson sydd yn cael effaith gynyddol negyddol ar iechyd neu les y plentyn neu’r person ifanc ac a all arwain at ddeilliannau negyddol pan fydd yn oedolyn. Gall y gamdriniaeth ddeillio o un broblem megis camddefnyddio cyffuriau neu alcohol gan y rhieni, neu gasgliad o amgylchiadau a straen teuluol, megis rhiant sengl, trais domestig, ynysu

**Emotional Abuse and Neglect**

(Arwyddion posib a gymerwyd o: https://www.nice.org.uk/guidance/CG89/chapter/1-Guidance#physical-features Disgrifiadau: NSPCC, Horwath 2007 a 2013) (Cyrchwyd 29/7/2019)

# Awgrymiadau ar gyfer Ymarfer

Gwybodaeth, canllawiau ac adnoddau ychwanegol am ***sut*** i ddiogelu

**Adran 3 rhan 1**
Ymateb i adroddiad am blentyn sydd mewn perygl o gael ei niweidio, cam-drin a/neu ei esgeuluso

**Adran 3 rhan 2**
Penderfynu a chynadleddau amddiffyn plant cychwynnol

**Adran 4**
Cynllunio ac ymyrraeth ar gyfer plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant

**Adran 5**
Honiadau/Pryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a’r rhai hynny mewn swyddi o ymddiriedaeth

**Adran 6**
Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan

# **Adran 6:** Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

## Beth sy'n Wahanol?' Yr Hanfodion Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gwasanaethau i Blant

# Canllawiau manwl ar **fathau penodol** o gam-drin, esgeulustod a niwed

Gweithdrefnau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

English

Nôl i Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed

### Canllaw ymarfer Cymru gyfan

- Diogelu plant rhag camfanteisio troseddol ar blant (CTaB)
- Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoelau
- Diogelu plant a all fod wedi'u masnachu
- Diogelu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
- Diogelu plant rhag eu hesgeuluso
- Diogelu plant rhag cam-drin ar-lein
- Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol
- Diogelu plant sy'n cael eu haddysgu gartref
- Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal
- Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol

" **Efallai yr hoffech chi gymryd saib** ar y pwynt hwn yn y cyflwyniad i lawrlwytho'r ap neu agor y wefan ac ymgyfarwyddo ag adrannau a nodweddion Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

www.diogelu.cymru
Chwiliwch am: Gweithdrefnau Diogelu Cymru

# Ymarferydd

**TERM CYFFREDINOL** i ddisgrifio unrhyw un sydd, drwy ei waith, yn dod i gysylltiad â phlant :

- mewn **cyflogaeth â thâl** (staff dros dro, myfyrwyr, hyfforddeion, staff achlysurol, staff asiantaeth, cynorthwywyr personol o dan gynllun y taliad uniongyrchol, ac ati)
- gweithwyr / gofalyddion **di-dâl**
- **gwirfoddolwyr**
- gweithwyr **hunangyflogedig**
- unigolyn **wedi'i gontractio** i ddarparu gwasanaethau

# Sicrhau bod ymarfer yn adlewyrchu canllawiau statudol yn gywir

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 7 Diogelu
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl
- Cod Ymarfer o dan Ran 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddfwriaeth, canllawiau a phrotocolau perthnasol eraill

# Sicrhau bod proses ac ymarfer yn cael eu safoni ar draws pob asiantaeth

**dull** cyson o weithredu

**systemau** cyson

**prosesau** cyson

**terminoleg** cyson

# Darparu disgwyliadau clir ar gyfer ymarfer diogelu drwy...


- Helpu ymarferwyr i **gymhwyso** deddfwriaeth a chanllawiau statudol gan esbonio **beth** yw eu cyfrifoldebau a **sut** i'w cyflawni
- Annog **ymarfer myfyriol** gyda newid sylweddol o weithdrefnau rhagnodol i bwyslais ar arfer **barn broffesiynol**
- **Cryfhau ac egluro'r** gweithdrefnau y mae'n rhaid i **bawb** eu dilyn er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau a'u cymhwyso

# Newid mewn Ethos

*Cyn*

**“Crib y Rhewfryn”**

- Arwyddion a symptomau **amlwg**
- Pryderon **penodol**
- Effaith **arwynebol**
- Canlyniadau **amhenodol**



*Nawr*

**“O Dan y Dŵr”**

- achosion **sylfaenol**
- **patrymau** ymddygiad
- cymhelliant a gallu
- canlyniadau **ystyrlon**

# Newid mewn Dull

*Cyn:*

Ffocws → **Gwasanaeth**

Plant mewn perygl yn cael eu gweld fel '**gwrthrychau pryder**'

Proses a wneir ***iddynt*** yw diogelu – 'cynnal ymchwiliad' 'cwblhau ymholiadau' 'rhif achos'

Ymholiadau'n cael eu cynnal **heb** ystyried **anghenion unigryw'r** plentyn

*Nawr:*

Ffocws → **Plentyn**

**Ymgysylltu** â'r plentyn, ei ofalyddion a'i deulu

**Galluogi'r** plentyn i wybod pa wahaniaeth y gellir ei wneud i'w brofiad

Mae ymholiadau yn **gwella** ei amgylchiadau mewn ffordd **ystyrlon**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Dull Diogelu sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn

ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc

Ymyrryd yn Gynnar

Ymgysylltu

Cydgynhyrchu

Profiad Beunyddiol

Eiriolaeth

Cydsyniad

Yn unol â Rhan 2 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant **mae angen dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn.**

Mae hyn yn **newydd sbon** yn yr ystyr bod iddo fwy o **ffocws** (o'r hen weithdrefnau) ar ddiogelu.

# Ymyrryd yn Gynnar

Ymgysylltu

Cydgynhyrchu

Profiad Beunyddiol

Eiriolaeth


Cydsyniad


Newid mewn pwyslais a **dull rhagweithiol** sy'n canolbwyntio ar leihau'r angen am ymyrraeth ac ymholiadau diogelu drwy

- oedi ac atal yr **angen** am ofal a chymorth
- gweithio gyda phlant a'u teuluoedd i **osgoi** sefyllfaoedd sy'n debygol o arwain at gam-drin, esgeulustod a niwed
- nodi a mynd i'r afael â **phryderon a ddaw i'r amlwg** cyn iddynt ddatblygu

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Beth sy'n Wahanol?’ Yr Hanfodion Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gwasanaethau i Blant










Rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA)** sy'n:

- hyrwyddo **ymyrryd yn gynnar ac atal**
- pwysleisio **eiriolaeth** a **chydgynhyrchu**
- rhoi gwybodaeth a chyngor i'r cyhoedd i **atal anawsterau rhag datblygu** i fod yn sefyllfaoedd lle mae angen ymyrraeth fwy dwys, arbenigol

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

## Beth sy'n Wahanol?' Yr Hanfodion Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gwasanaethau i Blant





**Gwybodaeth** – helpu unigolyn i wneud **dewis ar sail gwybodaeth** am ei lesiant.

**Cyngor** – gweithio mewn ffordd **gydgynhyrchiol** ag unigolyn i archwilio opsiynau, gan sicrhau ei fod yn deall yr hyn sydd ar gael iddo, a'i **gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau** am yr hyn sy'n bwysig iddo a'r canlyniadau personol yr hoffai eu cyflawni.

**Cymorth** – **gweithredu** gyda'r unigolyn i gael gafael ar ofal a chymorth, neu ofalwr i gael gafael ar gymorth

# Beth sy'n Wahanol?’ Yr Hanfodion Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gwasanaethau i Blant




**Gwybodaeth** – helpu unigolyn i wneud **dewis ar sail gwybodaeth** am ei lesiant.

**Cyngor** – gweithio mewn ffordd **gydgynhyrchiol** ag unigolyn i archwilio opsiynau, gan sicrhau ei fod yn deall yr hyn sydd ar gael iddo, a'i **gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau** am yr hyn sy'n bwysig iddo a'r canlyniadau personol yr hoffai eu cyflawni.

**Cymorth** – **gweithredu** gyda'r unigolyn i gael gafael ar ofal a chymorth, neu ofalwr i gael gafael ar gymorth

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Beth sy'n Wahanol?’ Yr Hanfodion Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gwasanaethau i Blant

Neidio i Gynnwys

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Diogelu Oedolion VAWDASV English

Allweddair

Rhieni a Gofalwyr | Plant a Phobl Ifanc | Gweithwyr Proffesiynol | Hyfforddiant

Coronafirws (COVID-19): y wybodaeth a'r cyngor diweddaraf

## Gweithwyr Proffesiynol

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys gwybodaeth i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr a allai ddod i gysylltiad â phlant, eu teuluoedd ac oedolion sydd mewn perygl, yn ystod eu gwaith. Bydd pob tudalen yn rhoi mwy o wybodaeth am y prif bwnc.

Er mai'r testunau mwyaf cyffredin yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws yw'r rhai sy'n cael eu trafod, mae yna rhai eraill sydd wedi'u cynnwys mewn gwahanol rannau o'r wefan hon fel Protocolau, Gweithdrefnau a Dogfennau Ymgynghori neu'r Hwb Adnoddau.

Efallai y bydd hefyd yn ddefnyddiol i chi edrych yn yr adran Plant a Phobl Ifanc neu'r adran Rhieni a Gofalwyr i weld pa wybodaeth benodol sydd wedi'i theilwra ar gyfer y bobl yr ydych chi'n gweithio gyda nhw.

**Beth yw cam-drin?**

Cliciwch yma i gael gwybod am y prif fathau o gam-drin: cam-drin corfforol, cam-drin emosiynol, cam-drin rhywiol ac esgeulustod ynghyd â mathau eraill o gam-drin a allai gynnwys un neu ragor o'r prif fathau o gam-drin

**Cadw Plant yn Ddiogel Ar-lein**

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar y we am E-ddiogelwch wedi'i theilwra naill ai ar gyfer plant a phobl ifanc neu rieni a gofalwyr. Dylai'r cysylltiadau hyn fod yn ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol, naill ai i gefnogi neu i gyfeirio plant a theuluoedd o ran cadw plant yn ddiogel ar-lein.

**Gwneud Atgyfeiriadau Diogelu i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

**Diogelu plant mewn ysgolion a lleoliadau addysg**

Mae gan bob ysgol, gan gynnwys ysgolion annibynnol

Adrodd am blentyn mewn perygl

Protocolau, Gweithdrefnau a Dogfennau Ymgynghori

Adolygiadau Ymarferion Achos

Hwb Adnoddau

Ynglŷn â Diogelu yng Ngwent

## Rhoi gwybod am blentyn sydd mewn perygl

Mae diogelu yn fater i bawb.

Mae gan bawb ddyletswydd i fod yn effro i bryderon am gam-drin ac esgeuluso plant a phobl ifanc a gwybod at bwy y dylent leisio’u pryderon.

Os ydych chi'n poeni bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, rhaid i chi leisio’ch pryderon i'ch Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth lleol isod:

**Blaenau Gwent**
Ffôn: 01495 315700
E-bost: Duty.team@blaenau-gwent.gov.uk

**Caerffili**
Ffôn: 0808 100 1727
E-bost: contactandreferral@caerphilly.gov.uk

**Sir Fynwy**
Ffôn: 01291 635 669
E-bost: ChildDuty@monmouthshire.gov.uk

**…ewydd**
… 01633 656656
E-bost: children.duty@newport.gov.uk

**Torfaen**
Ffôn: 01495 762200
E-bost: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

Ar ôl 5pm ac ar benwythnosau a gwyliau banc, cysylltwch â Thîm Dyletswydd Brys De Ddwyrain Cymru ar 0800 328 4432.

Os ydych chi'n credu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl dybryd, yna cysylltwch â'r Heddlu ar 999

Mae copi o’r Diogelu Plant - Dyletswydd i Adrodd (Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol) ar gael i’w lawr lwytho yma.

Os ydych chi’n gofidio am oedolyn sydd mewn perygl ewch i’r dudalen Rhoi gwybod am Oedolyn sydd mewn perygl page.

Adrodd am blentyn mewn perygl

## Dolenni Defnyddiol

Diogelu Plant - Dyletswydd i Adrodd (Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

Ymyrryd yn Gynnar

**Ymgysylltu**

Cydgynhyrchu

Profiad Beunyddiol

Eiriolaeth

Cydsyniad

**ymgysylltu** â'r plentyn a'r teulu i benderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion

**cydweithio â** phlant a theuluoedd fel partneriaid llawn

**cydbwyso** cynnwys y plentyn yn y gwaith o gynllunio a darparu, a sicrhau bod popeth a wneir er budd pennaf y plentyn

**cefnogi'r** plentyn i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer newid a thwf personol

**helpu'r** plentyn i reoli risgiau i ddatblygu ei ddewis a'i reolaeth dros ei fywyd i'r eithaf

Ymyrryd yn Gynnar

Ymgysylltu

**Cydgynhyrchu**

Profiad Beunyddiol

Eiriolaeth

Cydsyniad

- **gweithio mewn partneriaeth** ag unigolion, teuluoedd, gofalyddion, grwpiau a chymunedau
- **cymryd risgiau cadarnhaol** (Cefnogi pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau)
- **potensial unigolion** i ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau personol i gyflawni newid

Ymyrryd yn Gynnar

Ymgysylltu

Cydgynhyrchu

**Profiad Beunyddiol**

Eiriolaeth

Cydsyniad

**Dealltwriaeth glir** o:

- **sut beth** yw diwrnod cyffredin ym mywyd yr unigolyn
- sut mae'n **teimlo** am ei fywyd
- beth yr hoffai ei **newid**
- beth sy'n **bwysig** iddo
- beth yr hoffai ei **gyflawni**
- ei **ganlyniadau** personol

Ymyrryd yn Gynnar

Ymgysylltu

Cydgynhyrchu

**Profiad Beunyddiol**

Eiriolaeth

Cydsyniad

- **asesiadau** yn fwy **manwl gywir** ac yn **canolbwyntio'n fwy ar y plentyn**
- yn nodi'r **effaith/effeithiau**
- yn rhoi **cyfrif** llawer **cliriach**
- tystiolaeth o'r **ffyrdd penodol** mae'r cam-drin neu'r esgeulustod yn effeithio ar y plentyn

Ymyrryd yn Gynnar

Ymgysylltu

Cydgynhyrchu

Profiad Beunyddiol

**Eiriolaeth**

Cydsyniad

**Nod** – rhoi **llais** i'r plentyn.

"**Nid** yw bod yn bresennol yn unig yn gyfystyr â **chymryd rhan** neu roi llais i'r plentyn.

Mae gan blant **hawl** i gael **cynnig rhagweithiol** o eiriolaeth

**Nid unwaith yn unig** – rhaid ystyried hyn ar **bob cam** o'r broses.

Ymyrryd yn Gynnar

Ymgysylltu

Cydgynhyrchu

Profiad Beunyddiol

Eiriolaeth

**Cydsyniad**

**Mwy o eglurder** ynglŷn â chydsyniad

Mae **cynnwys** plant yn y broses **mor gynnar â phosibl** yn sicrhau bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried.

Os ystyrir fel arall bod gan blentyn **gymhwysedd Gillick**, **dylid ymgynghori ag ef** a chael ei ganiatâd er mwyn **osgoi ymyleiddio** ei lais.

Ymyrryd yn Gynnar

Ymgysylltu

Cydgynhyrchu

Profiad Beunyddiol

Eiriolaeth

**Cydsyniad**

Cydsyniad **Rhiant/Gofalwr**:

Y **brif ystyriaeth** yw **budd pennaf y plentyn** sydd mewn perygl o niwed.

Dylai ymarferwyr geisio cael cydsyniad gan riant/rhieni/gofalwr y plentyn, **oni bai y byddai'n cynyddu'r risg o niwed i'r plentyn.**

Ymyrryd yn Gynnar

Ymgysylltu

Cydgynhyrchu

Profiad Beunyddiol

Eiriolaeth

**Cydsyniad**

Mae'r GDPR yn disgrifio amgylchiadau eithriadol sy'n **caniatáu** i wybodaeth bersonol gael ei rhannu **heb gydsyniad** – mae'n cynnwys **atal cam-drin neu niwed difrifol i blentyn**

Caiff ymarferwyr eu hannog drwy gydol y gweithdrefnau i **arfer eu barn**.

Dylai ymarferwyr **drafod** a yw'n briodol i gael cydsyniad gan y rhiant/rhieni/gofalydd â Pherson Diogelu Dynodedig eu hasiantaeth

Ymyrryd yn Gynnar

Ymgysylltu

Cydgynhyrchu

Profiad Beunyddiol

Eiriolaeth

**Cydsyniad**

Rhesymau posibl dros **beidio â cheisio** cydsyniad rhieni:

- pe bai gofyn am gydsyniad yn arwain at fwy o risg i'r plentyn
- pe bai'n golygu y gallai'r plentyn gael ei fygwth / ei orfodi i gadw'n ddistaw
- pe bai'n golygu y gallai tystiolaeth bwysig gael ei dinistrio / ei cholli
- y rhiant yw'r camdriniwr honedig
- mae'r plentyn dan sylw yn ‘gymwys’ ac nid yw am i'r rhiant gael ei gynnwys ar y cam hwnnw
- mae er budd y cyhoedd

Os byddwch chi'n penderfynu *peidio* â cheisio cydsyniad rhieni, rhaid i chi **gofnodi eich rheswm** dros hyn, a **chynnwys y manylion** yn eich adroddiad i'r gwasanaethau cymdeithasol

**Efallai yr hoffech chi gymryd saib** ar y pwynt hwn yn y cyflwyniad i edrych ar y wybodaeth am gydsyniad yn Adran 2 o'r gweithdrefnau

Adran 2 > Y ddyletswydd i adrodd am blentyn mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod a/neu niwed > **Cael cydsyniad i hysbysiad**

# Terminoleg

## rhai newydd, rhai wedi'u diweddaru

# Mathau o Gam-drin

## *Newydd* Cam-drin Ariannol

- dwyn arian / eiddo personol
- peidio â diwallu anghenion gofal a chymorth y darperir ar eu cyfer drwy lwfansau / grantiau

## Cam-drin Emosiynol

Cam-drin emosiynol parhaus plentyn, gan gynnwys ceisio codi ofn ar blentyn neu ei fychanu'n fwriadol neu ei ynysu neu ei anwybyddu.

## Esgeulustod Emosiynol

yn cynnwys peidio â dweud unrhyw beth caredig, mynegi teimladau cadarnhaol na llongyfarch plentyn ar lwyddiannau, peidio â dangos unrhyw emosiynau wrth ryngweithio â phlentyn.

## *Newydd* Esgeulustod Hunaniaeth

peidio â chydnabod neu fynd i'r afael ag anghenion plentyn neu berson ifanc o ran (er enghraifft) diwylliant, crefydd, hunaniaeth o ran rhywedd a rhywioldeb.

# Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)

**Disgwylir** i ymarferwyr **asesu'n drwyadl** yr effaith y gallai Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACES) ei chael ar **allu rhiant** i ddiwallu anghenion y plentyn/person ifanc.

# Person Diogelu Dynodedig (DSP)

**Mae'n cyfeirio at yr unigolyn yn eich sefydliad:**

- sydd ar gael i drafod pryderon diogelu
- y dylid ymgynghori ag ef a ddylid codi pryder diogelu â'r awdurdod lleol
- a fydd yn rheoli unrhyw gamau uniongyrchol sy'n ofynnol i sicrhau bod yr unigolyn mewn perygl yn ddiogel rhag niwed

Nid yw'r term ‘**Atgyfeirio**’ yn cael ei ddefnyddio mwyach.

Rydym bellach yn dweud:

**Hysbysu**

# Dyletswydd i Hysbysu

**Mwy o eglurder a phwyslais ar gyfrifoldeb <u>pawb</u>** i hysbysu pryd bynnag y bydd **pryderon** neu **amheuon** diogelu.

Yn egluro ac yn esbonio bod

- dyletswydd (cyfreithiol) statudol ar bartneriaid perthnasol yr awdurdod lleol i hysbysu a phwy yw'r partneriaid hyn.
- **rhaid** i unrhyw un nad yw'n ‘bartner perthnasol’ **hysbysu** am unrhyw bryderon diogelu o hyd **yn yr un ffordd**

**Mae gan bob ymarferydd gyfrifoldeb i hysbysu am unrhyw bryderon a godir gan y cyhoedd**, yn ei fywyd **gwaith a phreifat**:

- Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn dweud wrth ymarferydd **yn rhinwedd ei swydd broffesiynol** am bryderon
- Pan fydd cymydog, aelod o deulu, ffrind neu gydnabod ymarferydd yn siarad am bryderon.
- **Ni ddylai ymarferwyr ddibynnu ar yr aelod o'r cyhoedd i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, na chynghori'r unigolyn i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol yn unig.**
- Os bydd aelod o'r cyhoedd yn trafod ei bryderon diogelu ag ymarferydd, naill ai yn rhinwedd ei swydd broffesiynol neu yn ei fywyd personol, mae **dyletswydd** ar yr ymarferydd i **hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol am y pryderon.**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Adran 5

## Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

# Adran 5 : Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

- Cwmpas wedi'i ehangu o ran **pwy** sydd wedi'i gynnwys
- Pwyslais cryfach ar y **ddyletswydd i hysbysu**
- Cwmpas wedi'i ehangu o ran **pryd** i ddilyn
- Pwyslais cryfach ar **sut** yr ymdrinnir â honiadau / pryderon o'r fath i sicrhau proses deg, gyson, amserol
- Pwyslais cryfach ar **bolisïau chwythu'r chwiban**

# Adran 5 : Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a’r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

## Cwmpas wedi'i ehangu o ran **pwy** sydd wedi'i gynnwys

- **Unrhyw ymarferydd** a ddaw i gysylltiad â phlant yn rhinwedd ei waith
- Unigolion â **chyfrifoldebau gofalu** am blant y mae angen gofal a chymorth arnynt, **ac** maent yn dod i gysylltiad â phlant yn eu gwaith cyflogedig neu wirfoddol
- Pobl mewn **Swyddi o Ymddiriedaeth**

# Person mewn Swydd o Ymddiriedaeth

Mae rhywun yn berson mewn swydd o ymddiriedaeth os yw'r **gwaith** a wna, neu **natur y gwasanaeth** y mae'n ei ddarparu, yn golygu:

- ei fod yn **debygol** o ddod i gysylltiad â phlant fel rhan o'i **waith cyflogedig neu wirfoddol**
- bod **y plentyn yn ei weld** fel rhywun mewn swydd o ymddiriedaeth, awdurdod, pŵer neu ddylanwad
- bod disgwyl iddo **ddiogelu** buddiannau plant

# Pwyslais cryfach ar y **ddyletswydd i hysbysu**

- **Rhaid hysbysu'r** gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am bryderon am ymddygiad ymarferydd / rhywun sydd mewn swydd o ymddiriedaeth

- Yn cynnwys **bywyd preifat** – ymddygiad sy'n peri pryder gan ffrind, aelod o'r teulu neu gymydog sydd hefyd yn ymarferydd / rhywun mewn swydd o ymddiriedaeth, **rhaid hysbysu'r** gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu

# Cwmpas wedi'i ehangu o ran **pryd** i ddilyn

Pryd bynnag y bydd pryderon neu honiadau

- o **gam-drin, esgeulustod neu niwed** yn erbyn y rhai sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rhinwedd gwaith am dâl neu wirfoddol
- bod unigolyn yn **anaddas i weithio gyda** phlant

# "Anaddas i Weithio Gydag Ef"

Gellir ystyried bod ymarferydd yn **anaddas i weithio gydag phlant mewn perygl** os:

- Mae'n/roedd yn **destun gweithdrefnau troseddol** sy'n awgrymu risg o niwed
- **Mae wedi achosi niwed neu niwed posibl** i unrhyw blentyn mewn perygl a gall beri risg yn ei amgylchedd gwaith, gwirfoddoli neu ofalu
- Mae wedi ymddwyn **yn ei fywyd personol** mewn ffordd a allai rhoi plentyn mewn perygl
- Mae wedi ymddwyn mewn ffordd a wnaeth **danseilio'r ymddiriedaeth** sydd ganddo drwy ei swydd
- Mae ganddo gyfrifoldebau gofalu am blant sy'n destun **Gweithdrefnau Diogelu**

# Adran 5 : Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Pwyslais cryfach ar **sut** yr ymdrinnir â honiadau / pryderon o'r fath i sicrhau proses **deg, gyson, amserol**

Pwyslais cryfach ar **bolisïau chwythu'r chwiban**, gan gynnwys sicrhau bod gan bob sefydliad weithdrefn chwythu'r chwiban, gan gynnwys ar gyfer **gwirfoddolwyr**.

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Adran 5 : Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

## Gellir eu rhedeg **ar y cyd** â, neu **ar wahân** i Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

**Gweithdrefnau ar gyfer ymateb i honiadau / pryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a'r rhai hynny mewn swyddi o ymddiriedaeth**

↓

Mae'r ffocws ar **ymarferydd neu berson mewn swydd o ymddiriedaeth** yr amheuir ei fod yn **achosi** cam-drin, esgeulustod neu niwed

**Gweithdrefnau Diogelu Cymru**

↓

Mae'r ffocws ar **blentyn mewn perygl** o **brofi** camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

**Protocolau mewnol**

↓

Proses fewnol gan gyflogwr

# Adran 5 : Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

## Cyfarfod Strategaeth Broffesiynol am Ganlyniadau

### Wedi'i brofi

**tystiolaeth annigonol** i brofi'r honiad

### Di-sail

mae'r unigolyn a wnaeth yr honiad wedi **camddehongli'r** digwyddiad, mae wedi **camgymryd** yr hyn a welodd, neu **nad oedd yn ymwybodol** o'r holl amgylchiadau

### Heb ei brofi

mae **tystiolaeth annigonol** i brofi neu wrthbrofi'r honiad

### Wedi'i ffugio'n fwriadol / maleisus

**tystiolaeth eglur** i brofi bod yr honiad yn gwbl ffug a bod **gweithred fwriadol i dwyllo** wedi bod

# Adran 5 : Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

## Mae Protocol Rhanbarthol newydd wedi cael ei gadarnhau yn ddiweddar.

- Mae'r protocol hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu mewn perthynas â phobl y mae eu gwaith, boed am dâl neu'n wirfoddol, yn golygu y byddant yn dod i gysylltiad â phlant neu oedolion mewn perygl
- Mae hefyd yn cynnwys unigolion â chyfrifoldebau gofalu am blant neu oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, ac maent yn dod i gysylltiad â phlant neu oedolion mewn perygl yn eu gwaith cyflogedig neu wirfoddol.
- **Mae'r protocol hwn yn cefnogi gweithdrefnau disgyblu mewnol asiantaethau eu hunain** ac yn rhoi canllawiau er mwyn ymdrin ag unrhyw bryderon neu honiadau o gam-drin neu esgeulustod proffesiynol yn briodol ac er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â honiadau o gam-drin a wneir yn erbyn staff neu wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl mewn ffordd deg, gyson ac amserol.
- Mae **Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill** yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd

**Efallai yr hoffech chi gymryd saib** ar y pwynt hwn yn y cyflwyniad i edrych ar **Adran 5**

- Sut i hysbysu am ymarferydd – beth i'w wneud / na ddylid ei wneud

- Beth i'w wneud os caiff honiad ei wneud yn eich erbyn chi – eich hawliau a beth i'w wneud / na ddylid ei wneud

# Hysbysydd

**Unrhyw ymarferydd neu aelod o'r cyhoedd** sy'n hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol am bryderon diogelu

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn **disgrifio** ei **rôl a'r disgwyliadau** yn glir.

**Prin yw'r newidiadau** am fod Dyletswydd i Hysbysu (fel y cyflwynwyd yn y Ddeddf yn 2014) eisoes yn weithredol

# Derbynnydd yr Hysbysiad

Yr **ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol** sy'n cael yr adroddiad, yn cwblhau gwiriadau cychwynnol ac yn penderfynu a oes angen gweithredu ar unwaith

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn disgrifio ei rôl a'i gyfrifoldebau yn glir.

# Ymholiadau A47

- Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol o dan A47 o'r Ddeddf i wneud ymholiadau ar ôl cael hysbysiad am blentyn
- Gall awdurdodau lleol ddirprwyo ymholiadau, ond mae **dyletswydd statudol** arnynt o hyd i sicrhau y cânt eu cynnal mewn modd cymwys
- Mae'r gweithdrefnau yn cynnwys canllawiau penodol ar **yr hyn y dylai** ymholiadau A47 **ei gynnwys**

# Ymholiadau A47

**Mwy o bwyslais** ar

- **ddadansoddi** gwybodaeth
- problemau sy'n effeithio ar **iechyd a lles** y plentyn ac ansawdd ei **brofiad beunyddiol**
- **dymuniadau a theimladau'r** plentyn, y **cryfderau/ffactorau amddiffynnol** a nodwyd
- ystyried **ffactorau economaidd-gymdeithasol** a **materion sy'n berthnasol i oedolion** sy'n effeithio ar eu gallu i fagu plant.

# Ymholiadau A47

RHAID GWELD Y PLENTYN YR UN DIWRNOD OS YW’R CANLYNOL YN WIR:

- Cafwyd adroddiad i ddweud bod y plentyn wedi cael **anaf corfforol**
- mae’r plentyn **wedi datgelu ei fod yn dioddef cam-drin corfforol a / neu rywiol** ac mae am gael ei ddychwelyd i’r sefyllfa a allai ei roi mewn perygl.
- Mae’r plentyn **eisoes yn destun** Cynllun Gofal a Chymorth Amddiffyn Plant
- Mae'r plentyn wedi'i **adael**
- Mae’r plentyn yn dioddef **esgeulustod difrifol** neu **risgiau iechyd difrifol** eraill.

# Tri phenderfyniad (canlyniad) yn dilyn ymholiadau A47:

Pryderon am niwed sylweddol heb eu cadarnhau

Pryderon am niwed sylweddol wedi eu cadarnhau, ond nid yw'r plentyn mewn perygl parhaus o niwed sylweddol

Pryderon wedi eu cadarnhau, a bernir bod y plentyn yn profi camdriniaeth, niwed neu esgeulustod, neu ei fod mewn perygl o'u profi

Er bod y rhain **yr un fath** o hyd, gwnaed rhai **newidiadau i'r camau gweithredu sy'n eu dilyn**. Mae'r manylion i'w gweld yn **'Beth sy'n Wahanol: Canllaw Cyflym'**

# CYNHADLEDD AMDDIFFYN PLANT

Mae'r gweithdrefnau newydd:

- yn nodi bod yn rhaid i bob ymarferydd ac asiantaeth a wahoddir i gynhadledd amddiffyn plant gyflwyno adroddiad ysgrifenedig
- yn amlinellu'r wybodaeth y mae'n rhaid i asiantaethau sy'n cyfranogi ei darparu
- yn amlinellu'r broses benderfynu mewn cynhadledd amddiffyn plant

Nid yw'r term **'Cynllun Amddiffyn Plant'** yn cael ei ddefnyddio mwyach. Rydym bellach yn dweud:

**Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth**

# Cynllunio ac Ymyrraeth ar gyfer Plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn annog **pob** ymarferydd i gymryd rhan yn y grŵp craidd – os na all ddod i gyfarfod y grŵp craidd dylai ymarferydd baratoi adroddiad
- Mae'r gweithdrefnau yn tynnu sylw at bwysigrwydd **cyfraniad** rhieni/gofalyddion at y grŵp craidd ac wrth helpu rhoi'r cynllun ar waith

# Cynllunio ac Ymyrraeth ar gyfer Plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

- Mae Adran 4 yn cynnwys awgrymiadau arfer dda ar gyfer **cydweithio** â phlant/teuluoedd
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn **cyflwyno cwestiynau** er mwyn helpu datblygu'r Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth
- Gweler 'Beth sy'n Wahanol: Diogelu Plant – Canllaw Cyflym i Newidiadau Allweddol' t9

# Cydlynydd y Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth

- **gweithiwr cymdeithasol penodedig** sydd â chyfrifoldeb ymarferydd dros yr achos – **ymgysylltu** â'r plentyn
- yn gyfrifol am **gydlynu'r** gwaith o baratoi, cwblhau, adolygu, cyflawni a diwygio'r cynllun
- dylid ei neilltuo i bob plentyn y rhoddir ei enw ar y gofrestr amddiffyn plant
- **rhaid** ei fod wedi'u gyflogi gan y gwasanaethau cymdeithasol, yn gofrestredig â Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn meddu ar gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad priodol i gyflawni'r rôl

# Ymarfer Diogelu Effeithiol

Mae disgwyl i **bob person** a ddaw i gysylltiad â phlant mewn perygl, eu gofalyddion a'u teuluoedd neu sy'n gweithio gyda nhw:

- ddeall y **broses ddiogelu**
- deall ei **rôl a'i gyfrifoldebau** i ddiogelu
- yn gyfarwydd â gweithdrefnau a phrotocolau ei **sefydliad** ar gyfer diogelu ac yn eu dilyn

# Ymarfer Diogelu Effeithiol

- yn **effro i arwyddion** o gam-drin ac esgeulustod
- yn gallu **defnyddio** Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chydymffurfio â nhw
- yn gwybod **pryd a sut** i hysbysu am unrhyw bryderon
- yn gweithio **ar y cyd** â'r plentyn mewn perygl, gofalyddion a theuluoedd
- yn ymrwymedig i **gydweithio'n** llawn â'r holl asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod

# Anghenion Ymarferwyr

Cydnabyddiaeth er mwyn i chi allu rhoi system ddiogelu effeithiol ar waith, mae angen y canlynol arnoch:

- **y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol** – Dylai pob ymarferydd fod wedi'i hyfforddi i lefel sy'n addas i'w rôl a'i gyfrifoldebau.
- **i chi gael eich cefnogi** gan Reolwyr a Byrddau Diogelu Rhanbarthol.
- **amgylchedd gwaith** sy'n arwain at system ddiogelu effeithiol

# Anghenion Ymarferwyr

- gallu arfer eich **barn broffesiynol**
- gallu **cael cyngor yn uniongyrchol** ynghylch unrhyw bryderon am blentyn
- gallu gweithredu mewn modd **amlasiantaethol a chydweithredol**
- gallu **cael gafael ar arweinyddiaeth strategol broffesiynol** sy'n eich cefnogi

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Y Camau Nesaf ...

# Pethau i'w Hystyried...

- Sut y byddwch chi'n **cael gafael ar** Weithdrefnau Diogelu Cymru, yn eu **defnyddio** ac yn eu **hymgorffori** yn eich ymarfer (os nad ydych chi wedi gwneud hynny'n barod)?
- Pa agweddau ar y gweithdrefnau sy'n **arbennig o berthnasol / hanfodol** i'r ffordd bresennol o weithio yn ystod COVID-19?
- **Yn y dyfodol**, pa agweddau eraill ar y gweithdrefnau a allai fod yn arwyddocaol i'ch gwaith/ymarfer?
- Pa agweddau ar eich gwaith (os o gwbl) y gall fod angen eu **haddasu** i'r ffordd hon o weithio? Sut y gellid gwneud hyn?

# Rhowch eich adborth

Byddai **Partneriaeth Diogelu Gwent** wir yn gwerthfawrogi eich adborth ar yr adnodd hwn, gan gynnwys a oedd yn ddefnyddiol i chi ai peidio, ac ati.

Mae **ffurflen werthuso fer** i'w gweld ar y wefan wrth ymyl y ddolen i'r fideo hwn a dylai ond gymryd 5 munud i'w llenwi

# Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi drafod unrhyw agweddau ar y gweithdrefnau newydd, cysylltwch â **'Hyrwyddwr'** Gweithdrefnau Diogelu Cymru eich asiantaeth neu eich tîm

*D.S.: Fel arfer bydd hyn yn rhywun yn eich tîm sydd wedi'i nodi fel 'Hyrwyddwr' gweithdrefnau, a aeth i sesiwn friffio Gweithdrefnau Diogelu Cymru Diogelu Gwent, ac a hwylusodd y gwaith o raeadru/lledaenu'r cyflwyniad hwn a'r 'Canllawiau Cyflym i Newidiadau Allweddol'.*